

Sgan gwythiennol aelod uchaf - DVT

Beth yw hwn?

Gall sgan uwchsain o wythiennau yn eich braich hefyd gael ei alw'n dwplecs neu'n Doppler. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delweddau o'r gwythiennau yn eich breichiau. Mae'r gwythiennau'n cludo gwaed o'ch breichiau yn ôl i'ch calon.

Mae'r prawf hwn yn ffordd ddiogel ac effeithiol o asesu a oes unrhyw glotiau yng ngwythiennau dwfn ac arwynebol y fraich. Gelwir clot gwaed yn y gwythiennau dwfn yn Thrombosis Gwythiennau Dwfn (DVT). Gelwir clot mewn gwythïen arwynebol yn thrombophlebitis. Bydd hyn yn galluogi'r ymgynghorydd i gynllunio'ch triniaeth.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Rydych chi'n cael y prawf hwn oherwydd bod y meddyg yn amau bod clot gwaed yng ngwythïen eich braich. Efallai eich bod wedi cael symptomau fel chwyddo, poen a chochni yn y fraich.

Sut mae uwchsain gwythiennol yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi cyn y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Mae'r sgan yn cael ei wneud ar y gwddf i lawr i'r arddwrn felly efallai y gofynnir i chi dynnu'ch top. Bydd hancesi papur yn cael eu defnyddio i ddiogelu unrhyw ddillad sy'n weddill a bydd eich urddas yn cael ei gynnal drwy gydol y broses. Bydd y goleuadau'n cael eu gostwng i helpu gweld y sgrin yn well.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Bydd y sgan yn cael ei berfformio gyda chi naill ai'n gorwedd i lawr neu'n eistedd yn gefnsyth ar y sofffa sganio. Rhoddir jel ar eich braich a bydd y gwyddonydd yn defnyddio rhywfaint o bwysau ysgafn ar y fraich i weld a oes clot gwaed yn y gwythiennau. Bydd y sgan yn cymryd hyd at 30 munud.



Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniad y sgan yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board